

Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Castell-nedd Port Talbot

Eich cyngor gwirfoddol sirol lleol



4. Gwirfoddolwyr

4.20 Gwirfoddoli a chymorth cyflogwr

Cyflwyniad

Mae diddordeb cynyddol mewn rhaglenni buddsoddi cymunedol a mwy o anogaeth gan y llywodraeth i gwmnïau a mudiadau'r sector cyhoeddus i gefnogi eu cymunedau lleol. Mae gwirfoddoli â chymorth cyflogwr yn un ffordd o wneud hyn ochr yn ochr â mentrau eraill o'r fath e.e. codi arian a rhoi i elusen y flwyddyn, rhoi trwy'r gyflogres a darparu ystafelloedd cyfarfod a rhoddion eraill mewn nwyddau i grwpiau'r trydydd sector.

Mae nifer o fathau o raglenni gwirfoddoli â chymorth cyflogwr i gynorthwyo cyflogeion i wirfoddoli, yn eu hamser eu hunain ac yn ystod oriau gwaith.

Gwahanol ddulliau o wirfoddoli â chymorth cyflogwr

Bydd gwahanol gyflogwyr yn dewis dulliau gwahanol (neu gyfuniad o ddulliau) i gefnogi eu staff i wirfoddoli yn dibynnu ar ddiwylliant ac anghenion busnes eu mudiad. Disgrifir rhywfaint o wahanol ddulliau isod. Mae'r cyfan yn werthfawr ond maent yn fathau gwahanol iawn o wirfoddoli.

- **Defnyddio sgiliau proffesiynol**

Gall cynnig eich sgiliau proffesiynol i fudiad trydydd sector fod yn llawer o help i'r mudiad hwnnw. Gall gwirfoddolwyr gymryd rhan a dyfeisio prosiectau gwerthfawr a datblygiadol. Mae'n rhoi profiad arwyddocaol i'r gwirfoddolwr a all wella ei sgiliau a'i ddealltwriaeth o'r trydydd sector neu grŵp buddiant, ac mae gan y prosiect berson sydd â'r sgiliau priodol i weithio ar brosiectau pwysig efallai na fyddai'n gallu eu gwneud fel arall. Gallai prosiectau posibl gynnwys astudiaethau dichonoldeb, ymgynghoriadau cymunedol, cynlluniau marchnata neu drefnu digwyddiadau.

- **Digwyddiadau un tro ar gyfer timau**

Mae digwyddiad gwirfoddoli tîm yn dasg a drefnir mewn partneriaeth â mudiad trydydd sector neu ysgol neu ysbyty sydd gan amlaf yn ymarferol iawn ac yn addas ar gyfer grŵp o bobl. Gall y rhain fod yn eithaf traddodiadol e.e. paentio ac addurno, garddio neu weithgareddau cadwraeth ac amgylcheddol. Gallai gweithgareddau llai traddodiadol gynnwys adeiladu neu brofi llochesu brys a gaiff eu defnyddio mewn ardaloedd o drychineb, trefnu diwrnod 'cyflwyniad i'r gweithle' ar gyfer myfyrwyr â nam ar eu golwg neu drefnu amrywiaeth o weithgareddau codi arian i elusen. Mae'r math hyn o weithgareddau o fudd i'r mudiad sy'n derbyn o hyd o ran bod prosiect go iawn yn cael ei gyflawni a'i gwblhau ac mae manteision hefyd i'r unigolion sy'n rhan o'r timau hefyd.

Y buddion a ddisgrifir gan aelodau o'r timau a chyflogwyr yn aml yw'r elfen adeiladu *tîm* a chynnydd mewn cymhelliant. Gall gwirfoddoli mewn *tîm* hefyd annog unigolion i wirfoddoli ac felly mae'n gyflwyniad da i'r rheini nad ydynt wedi gwirfoddoli o'r blaen.

- **Mentora**

Mae nifer o gynlluniau mentora sefydledig sy'n gofyn am wirfoddolwyr. Mae'r rhain yn cynnwys cynlluniau sy'n gweithio gyda throseddwr, pobl ddi-waith/anweithgar yn economaidd, pobl ifanc sy'n dechrau ym myd busnes ac mewn ysgolion. Mae hwn yn helpu gwirfoddolwyr ddatblygu eu sgiliau hyfforddi a gwrando a gall fod o fudd mawr i'r bobl y mae'r gwirfoddolwyr yn gweithio hwy.

- **Aelodau o fyrddau**

Gall gwirfoddolwyr eistedd ar fyrddau ysgolion, prosiectau sy'n ymwneud â'r cyhoedd neu ar bwyllgor rheoli mudiad trydydd sector. Mae aelodaeth ar fwrdd yn rhoi'r cyfle i ddefnyddio'r sgiliau a'r profiad a enillwyd mewn amgylchedd a chyd-destun hollol newydd. Gall bod yn ymddiriedolwr helpu hefyd i feithrin cysylltiadau cymdeithasol, ehangu profiadau neu gael rhywun i ymwneud â rhywbeth hollol newydd.

Achos busnes

Mae llawer o gyflogwyr wedi gweld bod cefnogi eu staff i wirfoddoli o fudd i bawb:

- **Manteision i'r gymuned**

- Gall sgiliau a dyfeisgarwch cyflogeion helpu i gefnogi prosiectau a mentrau
- Cynnydd yn y gronfa o wirfoddolwyr sydd ar gael
- Meithrin cysylltiadau rhwng y cyflogwr a'r gymuned

- **Manteision i'r cyflogai**

- Gall cyflogeion ddefnyddio eu sgiliau presennol i gefnogi prosiect cymunedol
- Gallant hefyd ddatblygu sgiliau newydd a chael profiadau gwahanol
- Cael y cyfle i berfformio ar ystod ehangach o dasgau yn y gweithle
- Profiadau newydd a chwrdd â chydweithwyr/cysylltiadau newydd
- Dealltwriaeth well o sector berthnasol/cleientiaid

- **Manteision i'r cyflogwr**

- Gwell cydberthynas â rhanddeiliaid, y gymuned leol a'r gymuned ehangach
- Cyflogeion brwdfrydig a pherfformiad gwell o ran gwaith
- Cyfleoedd am hyfforddiant a datblygu y tu allan i'r hyn a gaiff ei gynnig gan amlaf
- Ffordd hwyliog o ddatblygu staff a thimau
- Cysylltiadau Cyhoeddus da, cadw delwedd bositif o'r brand

Materion i'w hystyried

Mae angen i raglenni gwirfoddoli **â** chymorth cyflogwr fod yn addas i anghenion a gofynion busnes eich mudiad, caiff rhai materion allweddol i'w hystyried eu disgrifio isod:

- **Gwyliau â thâl**

Bydd rhai cyflogwyr yn cynnig gwyliau i'w staff i gymryd rhan mewn gweithgareddau gwirfoddoli. Ni fydd cyflogwyr eraill mewn sefyllfa i gynnig hyn. Beth bynnag y bydd y mudiad yn ei benderfynu, mae'n ddefnyddiol i gael polisi i egluro trefniadau gwyliau ar gyfer gwirfoddolwyr. Er enghraifft ydych chi'n gwneud y canlynol:

- cynnig x o ddyddiau o wyliau arbennig **â thâl** y flwyddyn i alluogi staff i wirfoddoli
- gofyn i staff gyfateb eu hamser gwirfoddoli e.e. un awr o'u hamser eu hunain ac un awr o wyliau â thâl
- annog staff i wirfoddoli ond methu **â** chynnig gwyliau **â thâl** felly bydd angen i staff wirfoddoli gyda'r nos neu ar y penwythnosau neu drefnu gwyliau blynyddol, neu ddefnyddio eu trefniadau oriau hyblyg.

- **Yswiriant ac iechyd a diogelwch**

Caiff gwirfoddolwyr **â** chymorth cyflogwr eu diogelu gan gyfraith cyflogaeth pan fyddant yn gwirfoddoli ar brosiect **â** chymorth cyflogwr (gan gynnwys i ffwrdd o'r safle neu wirfoddoli y tu allan i oriau gwaith). Mae gan gyflogwyr 'ddyletswydd gofal' i leihau'r tebygolrwydd fod gyflogeion yn cael eu niweidio o ganlyniad i'w gweithgareddau gwirfoddol. Bydd angen i gyflogwyr sicrhau bod eu polisi yswiriant yn diogelu cyflogeion sy'n gwirfoddoli y tu allan i'w gweithle arferol. Bydd angen i bob gweithgaredd gwirfoddol gael asesiad risg. Os ydych yn gweithio gyda mudiad partner sy'n trefnu gweithgaredd ar gyfer eich staff, mae angen i chi sicrhau bod y mudiad yn cynnal yr asesiad risg ar eich cyfer. Yn ddibynnol ar eich trefniadau yswiriant efallai y bydd hefyd angen i chithau gynnal asesiad risg.

I gael gwybodaeth fanylach am iechyd a diogelwch ac asesu risg ewch i [wefan Volunteering England's ESV](#)

- **Cydnabyddiaeth**

Gall cydnabyddiaeth am y cyfraniad y mae gwirfoddolwyr yn ei wneud fod ar ffurfiau gwahanol. Mae rhai cyflogwyr yn dyfarnu tystysgrifau, cynnwys straeon am wirfoddolwyr mewn gohebiaeth fewnol ac allanol, cynnal gwobrau gwirfoddoli a chynnig llythyrau o ddiolch. Bydd y math hwn o gydnabyddiaeth yn dangos i wirfoddoli eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a gall annog eraill i gymryd rhan. Efallai na fydd rhai gwirfoddolwyr eisiau gormod o werthfawrogiad cyhoeddus ac felly mae'n hanfodol i ofyn i'r unigolyn dan sylw. Rhaid i gyflogwyr hefyd ofalu eu bod ddim ond yn cydnabod gwirfoddoli **â** chymorth cyflogwr; ni fydd rhai unigolion sy'n gwirfoddoli yn eu hamser hamdden yn teimlo ei fod o unrhyw fusnes i'w cyflogwr ddathlu eu cyraeddiadau.

Gwybodaeth bellach/dolenni

Gallwch gysylltu â'ch Canolfan Wirfoddoli leol i gael rhagor o wybodaeth am gyfleoedd gwirfoddoli unigol yn eich ardal. Dewch o hyd i'w manylion cyswllt yn <http://www.gwirfoddolicymru.net/volunteercentres.html>

Gallwch hefyd chwilio am gyfleoedd gwirfoddoli unigol yn www.volunteering-wales.net Mae gan *Volunteering England* adran ESV ar eu gwefan sy'n cynnwys gwybodaeth gynhwysfawr am wirfoddoli â chymorth cyflogwr, gan gynnwys canllaw i sefydlu cynllun:

<http://www.volunteering.org.uk/WhatWeDo/Projects+and+initiatives/Employer+Support+Volunteering/Employers/>

Mae gan Busnes yn y Gymuned wybodaeth ar y wefan sy'n gysylltiedig â gwirfoddoli â chymorth cyflogwr yng Nghymru:

http://www.bitc.org.uk/wales/what_we_do/community/employee_volunteering/index.html

Mae gan Lywodraeth Cymru 'Canllaw i weithwyr sy'n gwirfoddoli yn y sector cyhoeddus', y gallwch ei weld drwy'r ddolen hon:

<http://wales.gov.uk/topics/housingandcommunity/voluntarysector/employee/gettinginvolved/?skip=1&lang=cy>

Ymwadiad

Mae'r wybodaeth a ddarperir yn y daflen hon ar gyfer cyfarwyddyd yn unig. Nid yw'n amnewid am gyngor proffesiynol ac ni allwn dderbyn unrhyw gyfrifoldeb am golled o ganlyniad i unrhyw berson weithredu neu wrthod gweithredu arno.

Am rhagor o wybodaeth cysylltwch â

Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Castell-nedd Port Talbot

Tŷ Margaret Thorne, 17-19 Stryd Alfred, Castell Nedd, Castell Nedd Phort Talbot, SA11 1EF

Elusen Gofrestredig 1064450

Ffôn: 01639 631246

info@nptcvs.org.uk

Ffacs: 01639 643368

www.nptcvs.co.uk



Ffôn: 0800 2888 329

www.wcva.org.uk

Cynhyrwyd gan WCVA, Cyngorau Gwirfoddol Sirol a Chanolfannau Gwirfoddoli
Wedi ei ddiweddarau: 01/07/2011